

# Cylchlythyr

# Amddiffyn Plant Ysgol Bro Idris

Mae amddiffyn plant yn rhan o **ddiogelu** a **hyrwyddo lles**. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae gan **BAWB** gyfrifoldeb am **amddiffyn plant** yn Ysgol Bro Idris – yn ddisgyblion, staff, ymwelwyr a rhieni. Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wneud yn siŵr bod plant yn ddiogel rhag niwed, a chymryd camau os oes ganddyn nhw bryderon.

Os oes gennych unrhyw bryder, neu angen cyfeirio unrhyw fater i sylw rhywun, dyma pwy yw'r unigolion cyfrifol ar bob safle:



**Mr Gareth Roberts** (Uwch-Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant **Ysgol Bro Idris 3-16/Prif Safle**)



**Mrs Awel M Davies** (Dirprwy Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant **Ysgol Bro Idris 3-16/Prif Safle**)



**Mr Prideaux Hattle** (Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant **Ysgol Bro Idris 3-16)**



**Mr Einion Edwards** (Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yn **Safle Llanelltyd**)



**Mrs Nia Roberts** (Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yn **Safle Dolgellau**)



**Mrs Heulwen Rowlands** (Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yn **Safle Dinas Mawddwy**)



**Mrs Sioned Jones** (Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yn **Safle Friog**)



**Mrs Elliw Saunders** (Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yn **Safle Rhyd-y-main**)

**Rhif Ffôn Ysgol Bro Idris**

**01341 424-949**

Mae aelodau proffesiynol eraill ar gael i wrando arnoch chi hefyd yn yr ysgol hefyd:

| | | |
|---|---|---|
| **Ms Wendi Jones**<br>Cwnselydd Ysgol | **Miss Roberta Williams**<br>Swyddog Lles Ysgol | **Mrs Iola Jones/Miss Elain Jones**<br>Nyrsus Ysgol |



**Mrs Delyth Lloyd Griffiths** (Uwch Swyddog Diogelu yr Awdurdod)

Manylion Cyswllt: DelythGriffiths@gwynedd.llyw.cymru

Dyma rifau ac asiantaethau eraill y gallech gysylltu â hwy os oes gennych eisiau siarad am unrhyw beth sy'n eich poeni:

ChildLine 0800 1111

www.childline.org.uk

NSPCC
Cruelty to children must stop. FULL STOP.
0808 800 5000

www.nspc.org.uk

SAMARITANS
confidential emotional support available 24/7
08457 90 90 90
samaritans.org

www.samaritans.org.uk

meic
Rhywun ar dy ochr di
Someone on your side

08088023456

www.meiccymru.org.uk

Barnardo's
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

02085508822 (Llun i Gwener 08:00 – 18:00)

www.barnardos.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

www.complantcymru.org.uk

**Canllawiau syml i'w dilyn…**



*Cofnodwch*

- Gofynnwch am gyngor am be i wneud nesaf.
- Osgoi rhagfarn a barn.
- Cadwch mewn cysylltiad â'r plentyn er mwyn ei gefnogi.
- Byddwch yn broffesiynol, peidiwch a thrafod y mater yn agored.
- Cofnodwch beth mae'r plentyn wedi ei ddweud - gan ddefnyddio geiriau'r plentyn.
- Nodwch y cyd-destun, amser a dyddiad ar eich cofnod a chofiwch ei lofnodi.

*Rhifau Cyswllt Defnyddiol*

Gwasanaethau Cymdeithasol—Cyfeiriadau a Chyngor
☎01758 704 455
**cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk**

Awdurdod Addysg - Cyngor
☎01286 679 552

Childline - **0800 1111**

## Amddiffyn Plant

*Canllaw Cyflym*
*Adran Addysg*
*Gwynedd*



**"Mae holl staff yr ysgol hon mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol sy'n awgrymu bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol "**

Cyswllt amddiffyn plant yr ysgol yw …

**Mr Gareth Roberts**

*Gallwch chi fod yn rhan o hyn oherwydd eich bod…*

- Wedi gweld niwed corfforol ar gorff plentyn na ellir ei egluro.
- Gall plentyn ddweud wrthoch chi beth sydd yn dig-wydd iddo ef neu hi.
- Gall plentyn arall ddatgan pryder am les plentyn arall.
- Gallwch fod wedi sylwi ar ddirywiad mawr mewn perfformiad disgybl mewn ysgol.

*Beth i'w wneud*

- Rhowch wybod i gyswllt amddiffyn plant yr ysgol yn syth.
- Peidiwch ac addo cyfrinachedd - eglurwch y gallasech orfod siarad â rhywun arall.
- Gwrando heb ragfarn.
- Gofynnwch gwestiynau agored i gadarnhau ond nid i ymchwilio.
- Cysurwch y disgybl ond mae'n bwysig osgoi cyswllt ffisegol.

## Diffiniadau o gamdrin ac esgeuluso plant

Gall rhywun gamdrin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed.

Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Cynllun Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol Gwynedd.

**Camdrin corfforol** – taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn (gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio sumptomau iechyd).

**Camdrin emosiynol** – trin plentyn yn wael yn barhaus sy'n achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol plentyn neu thrais yn y cartref.

**Camdrin rhywiol** – gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithrediad rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.

**Esgeulustod** – methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn.

## Radicaleiddio

Radicaleiddio yw'r ffordd y mae rhai pobl yn dod i gefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar a hyd yn oed ymuno â grwpiau terfysgwyr.
Mae arwyddion bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael ei radicaleiddio'n cynnwys:

- newid ffrindiau, ymddygiad ac iaith
- mynegi barn eithafol
- bod â llenyddiaeth eithafol ei natur
- siarad o blaid trais
- cysylltu ag eithafwyr hysbys
- ceisio recriwtio eraill.

